YR AIFFT A CHANAAN.

LLYTHYR X.

Ar ol boreu bryd campus yr oeddym yn cychwyn unwaith etto at y trên. Ar ein ffordd aethom heibio amryw standingau lle yr oedd, yn mhlith llawer o bethau ereill, darnau o gwrel ar werth. Y trên yn gadael am wyth yn y boreu. Dim llawer i'w weled ond yr anialwch tywodlyd. Cyrhaeddyd Ismailia am hanner awr wedi deg. Tref ydyw hon wedi codi yn yr anialwch, tref hardd, tai ardderchog, amryw balasdai gwych, eiddo M. de Lesseps yn un. Lesseps oedd cynllunydd y Suez Canal. Mae'r gerddi yma yn edrych yn rhagorol. Yr oedd yn syndod i bawb o honom i weled yr effaith oedd y dwfr yn gael ar y tywod. Ymddengys nad oes dim ond dwfr yn angenrheidiol i droi yr anialwch yma yn baradwys o'r harddaf. Mae Ismailia tua hanner y canal, a thua hanner y ffordd rhwng Suez ar y naill ben, a Port Said ar y pen arall. Mae'r hotel yn hynod gyssurus. Mae fel yr oll o'r dref yn newydd. Mae'r camel yn ddefnyddiol yma. Meddyliais nad anmhriodol fuasai dant camel fel coffadwriaeth am fy ymweliad â'r lle hwn, ac mae'r dant genyf. Dygwyddais ddyfod ar draws hen ysgerbwd neu ran o hono, ac ni bu'r drafferth yn fawr i ryddhau y dant a'i ddyogelu, ac yn awr mae wedi ei dicedu, "Ismailia." Mae genyf ychydig gregin o yma hefyd, a thipyn o'r hesg—nid wyf yn ddigon o ysgolhaig i ddadgan ei berthynas â'r hesg y bu Moses yn cysgu ynddo yn y dyddiau gynt.

Chwefror 25ain.—Wedi noson dda o gysgu gadawyd Ismailia am wyth y bore yn yr agerfad (*steamboat*) ar hyd Camlas Suez. Mae y llain o dir oedd gynt yn uno Asia ag Affrica, yn awr wedi ei ranu, a'r hyn oedd gynt yn gyfandir, yn awr yn fwy priodol o'r enw ynys Affrica. Fel hyn yr ysgrifenodd un o ohebwyr y *Daily Telegraph* ar y pryd:—"Nid oes un gwrthwynebiad, nad pa mor ddylanwadol, a ddichon rwystro y Suez Canel *route* i ddyfod yn brif ffordd rhwng Ewrop ac India. Dim ond ychydig o ddyddiau yn ol yr oeddwn yn darllen erthygl, yn llawn o ystadegau, mewn cyhoeddiad Seisnig arianol, yn yr hwn y ceisid profi, trwy amrywiaeth o resymau cywrain, y buasai y fasnach i'r India yn cael ei chario yn y blaen etto oddiamgylch i'r Cape. Yr oedd hyn yn dwyn ar gof i mi hen *bamphlet*, a ysgrifenwyd yr adeg gwneuthuriad y reilffordd rhwng Manchester a Liverpool, yn yr hwn y dangosid, trwy ffeithiau annychweladwy, y buasai y cyhoedd er yn gallu arbed amser trwy fyned gyda'r reilffordd o Manchester i Liverpool, etto, yn ymarferol yn ei chael yn fyrach i fyned gyda'r *coach*. Mae'r un ateb i bob gwrthwynebiad i'r Suez Canal yn cael ei gynnwys yn y ffaith syml, fod y pellder rhwng Llundain neu Liverpool a Bombay, yn cael ei fyrhau trwy y *route* yma, mewn cymhariaeth i'r un o amgylch i'r Cape, ryw bum mil o filldiroedd allan o ddeng mil. Cadwer y ffaith yma yn dda yn y meddwl, ac ni bydd lle i amheuaeth mewn perthynas i wirionedd yr haeriad yr wyf wedi wneuthur lawer gwaith o'r blaen, ac yn ei wneuthur yn awr

am y tro diweddaf, fod holl gwrs masnach rhwng y dwyrain â'r gorllewin wedi ei chwyldroi trwy doriad yr *Isthmus*." Yn raddol iawn mae'r broffwydoliaeth yma yn cael ei chyflawni, er fod y fasnach trwy y canal yn cynnyddu bob blwyddyn. Nid yw'r cynnydd yn debyg i'r hyn oedd y dysgwyliad, a thebyg iawn na welir dim o'r *trade* yma mor fywiog ag y dylai fod, nes byddo rhyw rai yn cymmeryd at y *management* sydd yn meddu mwy o'r ysbryd *go-ahead* na'r rhai presenol. Nid oes neb fel y Saeson i wneuthur pethau fel hyn i dalu, a daroganir yn fynych fod rhai o'n *millionaires* ni yn ceisio prynu'r hawl i'r Canal.

Agorwyd y Canal, Tachwedd 17eg, 1869. Fel hyn y mae un yn ysgrifenu :—"Am y Suez Canal nid yw'n ymddangos fod yn bresenol ond un farn. Nis gall neb yn awr amheu eu *practicability*. Mae y ddau fôr eisoes wedi eu huno. Mae Affrica wedi ei droi yn ynys trwy gyfuniad o ddyfroedd Môr y Canoldir â'r Môr Coch. Gall llongau o faintioli cyffredin eisioes hwylio o'r naill ben i'r llall i'r Canal, ac y mae cynlluniau eisoes ar droed, a llongau yn cael eu hadeiladu i gael *regular lines of European and Oriental traffic*. Yr oll sydd yn angenrheidiol yn awr yw digon o arian i gwblhau y gwaith. Byddai y bedwaredd ran o'r hyn a wariwyd yn rhyfel Abyssinia yn ddigon i ledaenu ac i ddyfnhau y canal i gyfarfod a gofynion masnach y byd. Mae M. Lesseps wedi cyflawni ei ran yn dda, ac y mae'n teilyngu pob anrhydedd a ddangosir iddo." Fel hyn y dywed y *Pall Mall* am Ionawr 1, 1870 :—"Ofn ceisio tynu casgliadau pendant oddiwrth gynseiliau hollol *abnormal*, ac ar y goreu nis gallwn ond megys bwrw math o amcandybiaeth ar ddylanwad y Suez Canal ar yr Aifft a'i gwleidyddiaeth. Os try allan ond yn llwyddiant masnachol rhanol yn unig, ni fydd y canlyniadau gwleidyddol ond dibwys ; ond, fel y dywedasom yn barod nid ydym yn credu yn fawr mewn llwyddiant rhanol. Os try yn fethiant, erys gweddillion mawr i roddi dyddordeb i hynafiaethwyr y dyfodol ; ac fe adroddir yr oll. Ond beth ddichon y canlyniadau fod, os gollynga mewn gwirionedd ddyfroedd Môr y Canoldir i redeg trwy sianel rwydd i ddyfroedd y Môr Coch ? Mae'n amlwg y dylai dylifiad parhaus masnach trwy yr *isthmus* fod i'r Aifft megys yn ail Nilus. Gwir na wnai ond megys cyffwrdd â'r wlad, ac y mae'r Canal yn rhedeg trwy anialdir diddwfr. Ond fel y Nilus y mae eisoes yn creu llwyddiant ac yn ffrwythloni yr anialwch. Mae dwy dref fywiog a phentref neu ddau eisoes wedi eu codi ar ei lànau. Cyn yr agoriad, yr oedd cenfigen Alexandria yn dangos ychydig o ddrwgdybiaeth nad oedd yn hollol afresymol mewn perthynas i ragolygon ei hymgeisydd, Port Said, ac oddiar hyny y mae'r drwgdybiaeth wedi bod yn ymffurfio i rywbeth tebyg i sicrwydd. Digon possibl y gall Alexandria ddioddef ychydig am dymhor, er y rhaid iddi hi fod o hyd yn *entrepôt* cyfoeth cynnyddol y Delta a Dyffryn y Nilus ; ond gwnai yr Aifft ennill un porthladd mawr arall. Yn mhellach, mewn gwlad lle mae dwfr, wedi ei arllwys ar y tywod yn cynnyrchu tyfiant, mae'n anmhossibl gosod terfyn ar ffrwythau anturiaeth a dyfrâd. Yn y dyddiau pan yr oedd cangen Pelusiaidd y Nilus yn bodoli, dywedir fod y Llynoedd Chwerwon (*Bitter Lakes*), â'u glànau ansiriol yn ffurfio rhan

o wlad Gosen. Yn awr, lle bynag y byddo pibau o ddwfr crai yn cael eu tapio, neu'r *sweet water* Canal yn cael ei bwmpio, yno y mae'r anialwch yn ymdori allan yn garped hardd o wyrdd. Nid yw Port Said yn sefyll mewn lle deniadol, ond etto nid yw fawr gwaeth nag Alexandria, ac mae Alexandria wedi myned yn mlaen yn bur lwyddiannus. Gorwedda'r naill rhwng y môr a Llyn Mareotis, a'r llall rhwng y môr a Llyn Menzaleh.

Wedi'r newydd-deb cyntaf fyned heibio, yr oedd y daith trwy y Canal yn myned yn ddiflas. Nid oedd fawr i'w weled am y rhan fwyaf o'r daith. Yr oedd y Canal gryn dipyn yn llydanach na'r Camlasau yn y wlad yma, ac yr oedd y banc ar bob llaw am y rhan fwyaf o'r daith yn rhy uchel i weled dim tuhwnt. Yn ambell i fan lle'r oedd y banc ychydig yn is yr oeddym yn cael golwg ar yr anialwch tywodlyd, ond yr oeddym yn fuan yn blino ar yr olygfa hono. Mae'n fwy hyfryd, mae mwy i'w weled wrth fyned dros y môr na myned trwy yr anialwch. Cawsom ychydig newid wedi dyfod i'r llynoedd chwerwon. Mae y Canal yn rhedeg trwy y rhai hyn. Ond hyd yn nod yno yr oeddym (ni y rhai byrion) yn gorfod estyn ein gyddfau fel garanod cyn gweled dros y banciau. Yr oedd ein taith trwy y Canal i barhau rhyw chwech neu saith awr, ond yn mhen tua dwy awr cawsom weledigaeth rhyfedd iawn. Mynai rhai o honom ein bod yn gweled tref fawr yn y pellder a'r tai yn rhyw 3 neu 4 stori o uwchder, yr oedd yno ereill a chwerthinent ein bod mor ddwl, a dywedent nad oedd y tai a dybiem ein bod yn gweled yn ddim ond adar! Nid oeddym yn foddlon credu ein bod mor ddwl a hyny chwaith. Nid oeddym wedi clywed erioed am adar yn 30 neu 40 troedfedd o daldra, ac i ni ymddangosai y rhai hyn yn gymmaint a hyny o leiaf. Wrth gwrs, yr oedd ein cyfeillion am ein ffylio, dyna'r casgliad. Fodd bynag, parhaent hwy i haeru,—yn dawel mae'n wir, er gyda gwên ar eu gwynebau—a pharhaem ninnau i amheu. Buom yn syllu ac yn ymresymu yn hir, ein gwrthwynebwyr mor benderfynol ag erioed, ninnau yn dywedyd dim llawer, ond yn methu cytuno i alw adar ar bethau nad oeddynt yn ymddangos i ni yn debyg i adar o gwbl. Ond beth allasent fod? Yr oedd yn rhy gynnar rai oriau i weled Port Said. Collasom afael ar ein syniad dechreuol pan welsom rai o'r gwrthddrychau yma yn cyffro. Ond nid oedd ein syndod yn llai, na'n dyryswch chwaith. O dipyn i beth, gyda'n bod ni'n dyfod yn nes, aeth pob amheuaeth heibio. Nid oeddynt ond adar wedi'r cwbl! Ond rhyfedd, y fath dyrfaoedd! Y Flamingo, a'r Pelican gan mwyaf, [Gwel Ymofynydd, Hydref, 1873, tud. 181]. Byddai yn werth erthygl yn yr Ymofynydd i esbonio y dirgelwch hwn. Achosid yr ymddangosiad yn ddiamheu gan adlewyrchiad y gwrthddrychau ar y dwfr. Ni ddarfu i ni weled dim yn neillduol y gweddill o'r daith ar y Canal. Ni ddarfu i ni gwrdd a'r un long ben bwy gilydd. Arosasom unwaith wrth bentref bychan nad wyf yn cofio ei enw. Cyrhaeddwyd Port Said rhwng dau a thri. Yr oedd yma dref addawus wedi gwneuthur ei ymddangosiad eisoes. Dim llawer o amser i edrych oddeutu. Rhaid cael tipyn o giniaw, ac am ugain munyd cyn pump dyma ni'n cychwyn ar y fordaith etto. Tua gwlad

Canaan yn awr. Dyma ni'n gadael yr Aifft ar ol, a phawb o honom yn edrych yn y blaen yn obeithiol am gael trem ar wlad yr addewid. Mae'r ymddangosiadau yn addawus am fynediad hapus. Yr un yw'r llong ag y daethom ynddi i Alexandria, ond wfft—mae'n llawn ofnadwy. Gorfu i lawer iawn o honom gysgu heb yr un gwely, er ein bod yn talu y *first class fare*. Ond nid yw'n rhyw lawer o bwys b'le os llwyddir i gysgu'n dda. Cysgai rhai ar y byrddau, rhai ar y ffwrymau, a rhai o tanynt. Llwyddais i yn weddol iawn gyda'r dosparth olaf, er nad oeddwn wedi treio y fath le erioed o'r blaen.

Chwefror 26.—Codais am chwech, ac wedi ymolchi ac ymdrwsio ychydig, es i fyny i'r *deck* i gael gweled yr haul yn codi—bryniau Palestina yn y golwg, a'r wlad i fyny hyd at fynydd Carmel. Mae'r darllenydd ond odid yn cofio am Carmel yn nghyd a'r hanes am Elias ac offeiriaid Baal (1 Bren. xviii). Dyma bentref bychan Jaffa o'n blaen—golygfa ardderchog oddiyma. Yma yr ydym yn glanio.

S.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfod Chwarterol yr Hydref eleni yn Rhydyparc, ar y 7fed a'r 8fed o Hydref. Saif y Capel uchod ar dueddau sir Benfro, yn y rhan dde-orllewinol o sir Gaerfyrddin, oddeutu naw milltir o Orsaf St. Clears. Y mae yn adeiliad bychan hardd, yn sefyll mewn man coediog cysgodol; ac wrth sefyll arno nis gallaswn lai nâ throsglwyddo fy syniadau am dano yn y ffurf ganlynol:—

O lannerch dlos o dwrf y byd—
Prydferthion fyrdd sydd yma'n nghyd;
Mae celf ac anian mewn mwynhad
Yn harddu'r lle fel Gwynfa fad.
O brydferth deml, ar hyn o dro,
Ti ydyw tegwch pena'r fro;
Tuallan mae'th ddymunol wedd
I harddwch yn gartrefol sedd.
Yn gaer o'th gylch mae'r bryniau ban,
A'r tewfrig goed—O hapus lan;
Nis gall y storm, er maint ei rhu,
Niweidio'th furiau cedyrn di.
I'th fewn daw pobl y fro yn nghyd,
Gan adael gofal hyn o fyd,
I ddyrchu eu haddoliadol lef,
Ar aden ffydd at Ior y Nef.
Mae'th drem drwy'r coed fel lleian wen,
Yn pwyntio'n wastad tua'r nen;
A'i hystym fyny fel tydi.
Mae'r fynwent dderch o'th gylch yn llawn
O gofadeiliau teilwng iawn;
Enwogion hunant yn ei gro—
Ha! dyma faes Macpela'r fro.

Tra rhedo dyfroedd ger y lle
Ar Rhydyparc boed gwenau'r Ne';
Anwyler di gan bobl y plwy',
Hyd pan na rifir amser mwy.

Er garwed yr hin, prydnawn dydd Mercher, daeth digon o bobl yn nghyd i orlenwi y capel—brodyr Trindodaidd gan mwyaf. Dechreuwyd gwasanaeth nos Fercher gan y Parch. J. Evans, Gellionen; ac yna pregethodd y Parch. W. James, B.A., Aberdar, oddiar Luc ii. 10, "A'r angel a ddywedodd wrthynt, Nac ofnwch: canys wele, yr wyf fi yn mynegu i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl." Sylwodd fod yr enwadau poblogaidd yn annghysson pan y maent yn galw eu hunain yn efengylaidd; oblegyd ystyr enwadau efengylaidd yw, enwadau y newyddion da o lawenydd mawr. Dywedai fod yr enwadau poblogaidd, er eu bod yn galw eu hunain yn enwadau y *newyddion da* yn traddodi llawer iawn o *newyddion drwg* i'r byd; megys dweyd wrth yr hil ddynol fod dyn yn greadur damniedig wrth natur, a dweyd fod Duw wedi parotoi fflamiau tragwyddol ar gyfer nifer luosog o'i blant. Dangosodd fod yr Efengyl "fel y mae yn yr Iesu" yw newyddion da o lawenydd mawr mewn gwirionedd yn ol ystyr wreiddiol y gair; ond nad oes sawyr Efengyl o gwbl ar lawer o athrawiaethau a gynnygir fel y cyfryw. Ar ei ol pregethodd y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, oddiar Ioan viii. 31, 32. "Yna y dywedodd yr Iesu wrth yr Iuddewon a gredasant ynddo, os aroswch chwi yn fy ngair I, dysgyblion i mi ydych yn wir; a chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddhâ chwi." Dangosodd mai'r unig ffordd i aros yn ngair Crist yw cadw ei orchymynion, a sylwodd ar y pwysigrwydd mawr o ddyfalbarhau mewn crefydd. Ar ol canu mawl a gweddi ymwahanwyd; ac er fod y gwlaw yn disgyn yn bistylloedd, etto ni fu yn foddion i ddiffodd awydd y gwahanol gyfeillion i bresenoli eu hunain yn nghyfarfodydd y dydd canlynol.

Er mawr lawenydd i bawb a feddylient am y cyfarfod, agorodd dydd Iau gyda gwenau hafaidd, a daliodd ei degwch hyd yr hwyr. Dechreuwyd cyfarfod deg o'r gloch gan y Parch. Proffeswr Evans, Caerfyrddin, ac ar ei ol traddododd y Parch. T. Thomas, y bregeth oddiar Col. ii. 9, "Oblegyd ynddo Ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol." Yn gyntaf, rhoddodd amryw ofyniadau i Drindodiaid ar natur person Crist, A ddarfu i Mair esgor ar ei Chreawdwr a'i Thad ei hun? Ai y Duw annghyfnewidiol oedd y bachgen Iesu am yr hwn y mae genym hanes iddo gynnyddu mewn doethineb a chorffolaeth? Ai y Duw anfarwol fu farw ar ben Calfaria? Yna sylwodd mai wrth y frawddeg "cyflawnder y Duwdod" y meddyliai yr apostol cymhwysderau Crist fel y Messiah, yn gystal a'r yspryd yr hwn a dywalltwyd arno nid wrth fesur, a'i fod wedi derbyn y cyflawnder yma yn fwyaf neillduol ar adeg ei fedydd gan Ioan yn yr Iorddonen, pan y daeth llef o'r nef yn dywedyd, "Hwn yw fy anwyl Fab yn yr hwn y'm boddlonwyd." Dywedai mai yr un peth a feddyliai Paul wrth "holl gyflawnder y Duwdod yn adnod y testun ag yn ei Epistol at

yr Ephesiaid iii. 19, lle y mae yn dywedyd wrth yr Eglwys Gristionogol yn Ephesus, "Fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw." Dywedai hefyd y fod cyflawnder hwn yn trigo yn mhob dyn da, fel ag y dywed yr un apostol yn 1 Cor. iii. 16, "Oni wyddoch chwi mai teml Duw ydych, a bod yspryd Duw yn trigo ynoch."

Ar ol y bregeth, cynnaliwyd *conference* ac etholwyd Proff. Evans i'r gadair. Yn ol hen arferiad ag sydd wedi tarddu oddiar yr erledigaeth ag oedd ar yr Undodiaid pan y torrasant allan gyntaf, rhoddodd y cadeirydd wahoddiad i'r sawl a fynai i ofyn cwestiynau i Mr. Thomas ar ei bregeth. Cododd rhyw frawd Trindodaidd i fyny, a dywedai ei fod wedi dyfod o bell ffordd gyda'r bwriad o gael eglurhad ar ddaliadau yr Undodiaid, ond yr oedd yn ddrwg ganddo ddweyd nad oedd wedi cael ei foddloni. Yr oedd ef wedi arfer credu fod dyn wedi syrthio yn y codwm boreu, ond fod y Mab, sef, yr ail berson yn y Drindod wedi cymmeryd arno natur dyn er effeithio "trefn y cadw." Yr oedd am ofyn i Mr. T., a oedd ef yn credu fod Crist yn Dduw go-gyfuwch â'r Tad? I'r hyn yr atebodd Mr. T. mewn ffordd o eglurhad o'r syniadau Undodaidd am natur person Crist, sef, mai dyn yn unig oedd—asgwrn o'n esgyrn ninnau a chnawd o'n cnawd ninnau, ond ei fod yn anfonedig Duw, y Messiah addawedig, ei fod wedi ei eneinio ag olew gorfoledd tuhwnt i'w gyfeillion, ac fod yr yspryd wedi cael ei dywallt arno nid wrth fesur. Ni wnai hyn etto foddloni y cyfaill. Yr oedd ef yn credu fod Crist yn ogyfuwch a'r Tad, a dywedai fod digon o adnodau yn y Beibl yn profi hyny. Dywedodd Mr. T. nad oedd ef fel Undodwr onest yn gwybod am yr un, a cheisiodd gan y brawd i adrodd un, i'r hyn yr atebodd nad oedd yn eu cofio ar y pryd, ond fod digon yn y gynnulleidfa yn eu cofio. Yna terfynodd y mater. Yn nesaf rhoddwyd y pwnc, "Eiriolaeth Crist" o flaen y cyfarfod. Llefarwyd arno gan y Parchn. J. Evans, T. Thomas, a'r cadeirydd. Sylwodd y ddau siaradwr blaenaf fod y syniadau poblogaidd ar y pwnc yn gosod Duw allan fel *tyrant* ac nid Tad maddeugar. Cyfeiriai yr olaf ni at erthygl o'i eiddo ar y pwnc, yr hon a ymddangosodd yn yr YMOFYNYDD, pan dan ei olygiaeth ef.

Cytunwyd fod cyfarfod y Nadolig i gael ei gynnal yn Caeronen, ger Llanbedr, ac fod y Parch. W. James, B.A., i draddodi y bregeth. Ni phenderfynwyd beth fydd y pwnc, ceir gwybod hyny etto drwy gyfrwng yr YMOFYNYDD. Terfynwyd cyfarfod y boreu drwy offrymu'r bendithiad gan y Parch. T. Thomas.

Dechreuwyd cyfarfod dau o'r gloch gan Mr. George Evans, o Brifysgol Glasgow, ac yna pregethodd Mr. E. Ceredig Jones oddiar 1 Tim. iv. 8, "Canys i ychydig y mae ymarfer corfforol yn fuddiol; eithr duwioldeb sydd fuddiol i bob peth, a chanddi addewid o'r bywyd sydd yr awr hon ac o'r hwn a fydd." Nododd nad yw duwioldeb ddim yn gynnwysedig mewn seremoniau allanol a chredöau hirion, ond mewn tebygolrwydd i Dduw; ac mai nid rhyw un ddyledswydd ydyw, am fod ganddi rywbeth i wneyd a'n holl ddyledswydd. Yn olaf, pregethodd y Parch. J. Evans, oddiar Ioan vii. 37, "Ac ar y dydd diweddaf, y dydd o'r wyl, y safodd yr Iesu, ac a lefodd gan ddywedyd,

Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed." Arweiniodd ein sylw at gymhwysder yr Iesu i roddi yr alwad ag sydd yn y testun, ac fod ei alwad yn un gyffredinol; a'i fod yn para i alw arnom ni yn awr, ac yn cynnyg dyfroedd iachusol yr iachawdwriaeth i ni. Wedi talu diolchgarwch i'r cyfeillion o bob enwad yn yr ardal am eu caredigrwydd a'u llettygarwch, terfynwyd y cyfarfod. Cafwyd cyfarfodydd hwylus iawn, cynnulliadau lluosog, gwrandawiad astud, canu swynol, a phregethau da yn ol fy meddwl i. Gobeithio y bydd ymweliad y cyfarfod chwarterol i brofi yn fendith i'r ardal, drwy greu awydd mewn dynion i chwilio drostynt eu hunain, a ydyw pethau fel ag y mae y mwyafrif yn dweyd eu bod, a thrwy dori ewinedd rhagfarn yr hon sydd a'i gafael mor dyn ar feddyliau pob dosbarth. Rhwydd hynt i eglwys fechan weithgar Rhydyparc, yr hon sydd *channel* fechan i gludo afon gwirionedd a rhyddymofyniad i'r rhan hon o'n gwlad. Dymunwn weled y fechan yn dyfod yn fil, a'r wael yn genedl gref.—E. C. J.

EIN HYSGOLION SUL.

Mae adroddiad y *Sunday School Association* wedi bod yn ddiweddarach nag arfer eleni. Heddyw y daeth i law (Hydref 1af). Fel arfer yr ydym yn rhoddi yr adroddiad o ysgolion Cymru allan o hono mor bell ag y maent ynddo. Mewn ufudd-dod i'n cais yn rhifyn Awst ni chawsom ond tri atebiad y rhai a geir ar y godre.—Gol.

Enw yr Ysgol.	Cyfanrif yr Ysgolheigion.	Gwrywaidd.	Menywaidd.	Cyfartaledd.	Yr Athrawon gwrywaidd.	Athrawesau.	Cyfartaledd.	A yw y gweinidog yn cynnorthwyo yn yr Ysgol Sul?	Cyflwr yr Ysgol mewn cymhariaeth i'r lyn oedd y llynedd.
Aberdar, Hen Dy Cwrdd,—dim adroddiad									
Cwmbach	32	14	18	28	3	4	30	Ydyw.	Yn llai.
Allt-y-Placa	95	41	54	85	6	5	10	Ydyw.	Cynyddu
Capel-y-Bryn	62	30	32	45	4	3	5		
Capel-y-Fadfa	38	24	14	30	8	1	7	Na.	Yr un.
Cae'r Onen	118	54	64	84	6	4	8	Na.	Yr un.
Ciliau (dim adroddiad) ..									
Cribyn (dim adroddiad) ..									
Llwyn-rhyd-Owen ..	38	18	20	30	7		5	Ydyw.	Gwanach
Merthyr (dim ysgol: dosparth o bobl ieuainc gan y gweinidog)									
Pant-y-Defaid	92	39	53	70	8	5	5	Ydyw.	Yn well.
Rhyd-y-Gwin (y capel yn cael ei adnewyddu) ..									
Swansea	36	23	13	22	1	5	6	Ydyw.	Yn well.
Aberdar—Hen Dy Cwrdd ..	66	48	18	55	7	3	8	Ydyw.	Yn llai.
Cefncoed	50	24	26		6	1			Yn llai.
Nottage	49			30	1	4			

Nid yw y tri olaf yn yr Adroddiad crybwylledig.

EIN GWRTHWYNEBIAD I'R DDUWINYDDIAETH BOBLOGAIDD.

YR ydym ni yn gwrthwynebu ac yn siarad yn erbyn y meddylddrychau, parth crefydd, sydd yn ffynu yn ormodol yn ein plith, oherwydd y credwn eu bod yn tueddu yru o'r meddwl syniadau anrhydeddus, pureiddiol a sancteiddiol am Dduw; y maent yn tueddu i'n cymmeryd ni oddiwrth ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, ac yn gosod i fynu yn ei le Ef fod na allwn ei garu, a'r hwn na ddylem ei garu pe gallem. Gwrthwynebwn, yn neillduol ar y tir yma, y gyfundraeth hono sydd yn myned dan yr enw "Iawnffyddiaeth," yr hon sydd wedi, ac yn parhau i gael ei chynnyg a'i derbyn trwy ein gwlad. Y mae y gyfundraeth yn cymmeryd gwahanol agweddau, ond mae yr oll megys yn taflu anfri ar y Creawdwr. Yn ol ei hen ffurf wreiddiol, y mae yn dysgu fod Duw yn ein dwyn ni i'r byd yn hollol lygredig; felly, o dan ymddangosiad diniwed ein mabandod y mae yn guddiedig natur sydd elynol i bob da, a thueddol i bob drwg, natur sydd yn ein gwneyd yn agored i annghymmeradwyaeth a digofaint Duw cyn y byddom yn feddiannol ar allu i ddeall ein dyledswyddau, na meddwl am ein gweithredoedd. Yn ol esponiad diweddarach, y mae yn dysgu i ni ddyfod o dan law ein Gwneuthurwr gydâ'r fath gyfansoddiad, a chwedi ein gosod tan y fath ddylanwadau ac amgylchiadau, fel ag i wneyd yn effeithiol ac yn sicr lygredigaeth hollol pob bod dynol o'r funyd y bydd alluog i feddwl a gweithredu, ac y mae yn dysgu hefyd fod trosedd y plentyn sydd yn dwyn i fodolaeth gydag ef y duedd barhaus yma at bob drwg yn ei wneyd yn agored i'r ddedfryd o dragywyddol ddamnedigaeth.

Yn awr, yn ol egwyddorion amlycaf moesoldeb, yr ydym yn dal y buasai cyfansoddiad naturiol y meddwl yr hwn sydd yn ei dueddu mewn modd anorchfygol at y drwg, a dim ond y drwg, yn ei ryddhau oddiwrth gyfrifoldeb ac euogrwydd, ac y buasai rhoddi bywyd i ddyn ar yr ammod yma yn dangos creulondeb annhraethadwy—y creulondeb mwyaf, ac y buasai y gweinyddiad o gosp dragywyddol ar y fath gymmeriad anhapus, y peth mwyaf creulawn ag y gellir dychymygu am dano. Buasai yn arddangos anfeidrol mwy o greulondeb na ddangosodd y gormeswr penaf a fu ar y ddaear erioed.

Y mae y gyfundraeth yma yn dysgu hefyd fod Duw yn dethol o'r rhai yma nifer i gael eu cadw, yn eu cipio, trwy ddylanwad neillduol, o'r trueni; fod y rhan arall o ddynol ryw, er wedi ei gadael yn amddifad o'r gras neillduol hwnw mae eu troëdigaeth yn sefyll mewn angen am dano, yn cael eu gorchymyn i edifarhau, o dan ddedfryd barn ddidrugaredd; ac i fod maddeuant yn cael ei addaw iddynt ar yr ammodau ag y mae eu cyfansoddiad yn eu tueddu mewn modd anorchfygol i'w wrthod, ac wrth wrthod y cyfryw, y maent yn cynnyddu yn ddychrynllyd gospedigaethau uffern. Y mae y cynnygion yma o faddeuant ac annogaethau i wella, i fodau sydd wedi eu geni i felldith, yn llanw ein meddwl ni â dychryn na allwn ei ddarlunio mewn geiriau. Cyfaddefwn yn galonog a chydag hyfrydwch nad yw y gyfundraeth hon yn esgor ar y canlyniadau allesid yn rhesymol ddysgwyl. Y mae yn cael ei gwrthsefyll yn fynych, yn fynych iawn, gan natur, cydwybod, synwyr cyffredin, gan don gyffredinol yr Ysgrythyr, gan esampl dyner ac addysgiadau yr Iesu, a chan y lluaws ymadroddion pennodol sydd yn profi caredigrwydd cyffredinol ac uniondeb perffaith y Duw byw. Ond etto, meddyliwn ein bod yn gweled ei dylanwad anhapus. Y mae yn tueddu i ddigaloni y gwan a'r ofnus, i roddi esgusodion i'r drygionus. Trwy groesi, fel y gwna, egwyddorion sylfaenol moesoldeb, a thrwy

arddangos Duw caled a phartiol, y mae yn tueddu yn rymus i wyrdroi y gynneddf foesol, i ffurfio crefydd dywyll, galed ac atgas, ac i annog dynion i feithrin, yn lle crefydd bur a dihalogedig, deimladau cas, erlidus a chiaidd. Meddyliwn hefyd y gellir dysgwyl i'r gyfundraeth yma, yr hon sydd yn dechreu trwy ddarostwng y natur ddynol, ddybenu trwy greu balchder; oblegid y mae hwnw yn effaith yr ymwybodolrwydd o'r meddiant o ryw nod uchel a gwerthfawr, ac nid oes un gwahaniaeth mor fawr â'r hwn sydd yn cael ei wneyd rhwng yr etholedig a'r gwrthodedig gan Dduw.

Teimlwn fod galwad arbenigol arnom i wrthwynebu yn gyndyn a pharhaus y syniadau gau a dianrhydeddus i Dduw ydym wedi sylwi arnynt. Gallwn oddef a phasio heibio i gyfeiliornadau ereill gyda gradd o ddifaterwch; ond gofynwn i'n gwrthwynebwyr i adael i ni Dduw teilwng o'n cariad a'n hedmygedd, yn yr hwn y gallwn lawenhau a llawenydd annrhaethadwy, yr hwn sydd noddfa ddyogel a nefol i ni yn ngwyneb ein gwendidau a'n tristwch. Glynwn wrth y perffeithderau dwyfol. Canfyddwn hwynt yn mhob man yn y greadigaeth, darllenwn hwynt yn yr Ysgrythyrau, gwelwn ddarlun dymunol a byw o honynt yn Iesu Grist ein Harglwydd, ac y mae diolchgarwch, cariad a pharch yn galw arnom i ddwyn ein tystiolaeth iddynt. Yn cael ein gwarthruddo fel ydym yn fynych, ein cyssur a'n dedwyddwch yw y meddwl taw un o'n prif droseddiadau yn erbyn y lluaws yw ein sêl gyda'r hon yr amddiffynwn ddaioni uniondeb Duw, yn ngwyneb fod dyn wedi taflu gorchudd dudew trostynt.

C——G.

BYDDED GOLEUNI.

Dyma'r ymadrodd cyntaf mae y Beibl yn gynnwys mewn perthynas i'r ewyllys Ddwyfol. Efe ydyw, yn ol amgyffred yr ysgrifenwr santaidd, y llais cyntaf a dorodd ar ddystawrwydd tragywyddoldeb. Teyrnged yw i fawredd uchaf a gwerth annghydmarol goleuni ar dywyllwch i holl oesoedd dyfodol y byd, yr hwn oedd pryd hyny yn ymwthio i fodolaeth. Gyda phriodoldeb y gallasai yr hen athronydd waeddi allan pan yn darllen y frawddeg, mai patrwn ymadrodd goruchel ydyw.

Hwn ydyw allwedd yr holl Feibl. Y mae crefyddau gau yn cael nodded, nid yn y goleuni, ond yn y tywyllwch. Bydded tywyllwch! meddant hwy; bydded cysgod; bydded dirgeledigaethau. Ond y mae gwir grefydd wedi dweyd erioed, "Bydded goleuni; bydded dysglaerdeb; bydded gwres; bydded llawenydd a siriol deb; bydded amlygrwydd; bydded gwybodaeth." Tra byddom i aros yma ar y ddaear, diau fod yn rhaid i ni "weled megys trwy ddrych mewn dameg;" ond amcan *dadguddiad*, fel mae yr enw yn arwyddo, yw lleihau a symud ymaith y tywyllwch, neu droi yr hyn sydd dywyll yn oleu mor bell ag y mae hyny yn ddichonadwy.

Fe ddywedir fod yr Iesu yn oleuni yn gystal ag yn fywyd y byd. Un prif amcan ei ddyfodiad oedd i gyhoeddi, megys ar benau tai, yr hyn nad oedd wedi cael ei wneyd yn flaenorol, ond megys mewn manau dirgel. Un o'r amcanion mawr a phwysig ganddo Ef mewn golwg pan lafuriai yn mhlith dynion oedd eu gwneuthur hwy, nid yn blant y niwl a thywyllwch, ond yn blant y goleuni.

Y mae geiriau olaf Llyfr y Datguddiad yn cyduno â geiriau cyntaf Llyfr Genesis; oblegyd pan yn darlunio perffeithrwydd y gwynfydedigion, dywed, "Ac ni bydd nos yno; ac ni raid iddynt wrth ganwyll; oblegyd y mae yr Arglwydd Dduw yn goleuo iddynt; a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd." Y fath ydyw meddwl cyffredin yr ymadrodd uchod, ac o ganlyniad nid ydym yn gwneyd camgyflead o'r geiriau pan yr arferwn hwynt i osod allan bob amlygiad dylynol o oleuni, pa un ai mewn natur neu ras.

A.P.S.

Congl yr Holiedydd.

Y PELLDER O'R DDAEAR I'R HAUL.

Yr oedd Elihu Burritt yn dysgu mesuryddiaeth tra yn gweithio wrth ei eingion. Un o'r gofyniadau ymgynygodd i'w feddwl ydoedd hwn :—"Pa sawl llath o frethyn, tair troedfedd o led, wedi ei dori yn lleinau modfedd o led, a fyddent yn ddigon i gyrhaeddyd o ganolbwynt y ddaear i ganolbwynt yr haul. Cauiataer modfedd ar bob pen i bob llain i'w lapio dros eu gilydd?" A wnaiff rhai o'r darllenwyr ieuainc gymmeryd at eingion a cheisio ateb y gofyniad hwn? L. J.

Mr. Gol.—A fyddwch chwi neu rai o'ch gohebwyr mor garedig a rhoddi rhyw oleuni ar y 12 adnod o'r 11 bennod o St. Matthew, hyn a roddai foddlonrwydd mawr i lawer heblaw fy hun,—Ydwyf, Syr,

Evan Lewis.

Hen wr 90 mlwydd oed, Llamgodwm, Llandefeilog, near Carmarthen, Oct. 17, 1874, yr ydwyf yn gobeithio y byddaf byw i'w darllen yn yr Ymofynydd nesaf.

Darnau Byrion.

Moses oedd yr unig ddyn erioed a dorodd yr holl orchymynion ar unwaith.

Y segur nid ydynt yn caru y diwyd; nid ydynt yn deall mawr hyfrydwch llafur.

Mae'r dyn hwnw yn amddifad o ryw beth, yr hwn nid yw erioed wedi gweled trallod.

Cartref a Busnes.—Mae rhai dynion yn ymgyflwyno mor drwyadl i'w busnes fel ag i esgeuluso bron yn hollol eu cyssylltiadau teuluaidd a chymdeithasol.

Cartref. — Mae llawer plentyn yn myned ar gyfeiliorn, nid am fod diffyg gweddi neu rinwedd gartref, ond yn unig am fod cartref yn amddifad o ddysgleirdeb.

Hudoliaethau.—Hudir yr hen gan aur, yr ieuanc gan bleser, y gwan gan weniaeth, y cowardaidd gan ofn, y dewr gan uchelgais; mae *bait* i ateb pob archwaeth, a phob *bait* yn cuddio yr un bachyn marwol.

Amheu.—Mae dyn at ei ryddid i amheu oblegid y mae galluoedd ei amgyffrediad yn hynod gyfyngedig; ond yn sier ni ddylai dyn ddim bod yn ymffrostgar yn ei amheuaeth.

Dibyniaith.—Mae y cyfoethog yn dibynu ar y tlawd, yn gystal a'r tlawd ar y cyfoethog. Nid yw y byd yma ond math o adeilad ardderchog; mae'r holl feini wedi eu graddol sementio yn eu gilydd. Nid oes neb yn dibynu arno ei hunan yn unig.

Diacon Siarad yn blaen mewn cwrdd gweddi yn ddiweddar a weddiodd dros yr aelodau absenol oeddynt yn gorwedd ar welyau cystudd, neu yn eistedd yn nghadeiriau iechyd.

Cyfoeth.—Mae cyfoeth dyn yn dibynu mwy ar y wraig fo gan ddyn nag ar ei incwm; gwnaiff rhai menywod i'w gwyr ddyfod yn gyfoethog ar gant punt yn y flwyddyn, tra mae ereill o'r braidd yn gallu cadw o ddyled a'r ugain cant.

Goethe.—Adroddir i Goethe ddywedyd yn ei afiechyd olaf:—"Aed gwrtaith meddyliol yn y blaen yn cynnyddu; eled y gwyddorau naturiol yn y blaen yn ennill mewn uchder a llydander, a lledaened y meddwl dynol faint bynag a wnelo—nid aiff byth uwchlaw *elevation* a gwrtaith moesol Cristionogaeth fel mae'n ymdywynu ac yn ymddysgleirio yn yr Efengyl.

"Mr. Smith, dywedasoch wrth y llys i chwi unwaith wasanaethu yn y pwlpud hwn. A oeddych yn meddwl dywedyd eich bod wedi pregethu?" "Nac oeddwn, dâl y ganwyll wneuthum." "Ah, tybiai'r llys i'r bregeth ddyfod yn uniongyrchol oddiwrthych chwi." "Naddo, naddo, Syr, ni wneuthum ond taflu ychydig o oleuni arni."

Gohebiaethau.

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD.

Mr. Gol., Pan welais lith J. J. o dan y penawd uchod yn yr Ymofynydd, yr oeddwn yn gobeithio y cefnogid ef. Fel un sydd yn arwain canu mewn cynnulleidfa Undodaidd, credwyf nas gallasai dim fod yn fwy o hwylusdod i bob arweinydd a phob mawl ganwr, na chael y llyfr yn llyfr Emynau a Thonau. Dywed eich gohebydd Nemo, fod mwy a chadarnach rhesymau yn erbyn y *mixture* nag sydd drosto. 'Dall dim rhesymau fod yn erbyn y *mixture* ond gan y sawl sydd yn cymmeryd dim *interest* mewn caniadaeth grefyddol. Mae'n wir fod rhagor nag un casgliad o dônau rhagorol yn Nghymru, ond mae'n wybyddus nad yw trefniant a chynghaneddiad y tonau yr un fath yn mhob llyfr. 'Dyw cynghaneddiad y tonau er enghraifft yr un fath yn llyfr Stephen a Jones, ag ydynt yn llyfr Ieuan Gwyllt lawer iawn o honynt. Fod rhai yn canu yn ol y llyfr hwn, ereill yn canu yn ol llyfr arall, dyna anrhefn mawr iawn. Bod y don ar yr un tudalen a'r emyn a roddid allan ar y llall, 'dyw hyna yn un rheswm o gwbl yn erbyn y *mixture*, oblegyd byddent yn yr un llyfr ac fe fyddai nodwedd y don yn cyfateb i ystyr ag yspryd pob emyn a fyddai ar ei hol hyd at y don ganlynol. Y mae mwyafrif o lawer yn mhob cynnulleidfa yn gallu canu peth mwy neu lai. ychydig yw y rhai na allent ganu peth pe ymdrechent. Am hyny, tafled pob un ei fantell ddioglyd ymaith, a rhodded i'r mudiad da hwn bob cefnogaeth, sef cael y llyfr yn Emynau a Thonau. Fel un sydd yn ymdrechu hwylysu ac hyrwyddo ein caniadaeth grefyddol yn mlaen, gobeithio y bydd i bob aelod o'r cynnulleidfaoedd Undodaidd roddi ei ysgwydd dan y baich, fel y gellir ei ddwyn yn hawdd, yna cawn orphwys yn gyssurus â'r llyfr Emynau a Thonau yn agored o'n blaen i'n talu am ein trafferth.

Yr eiddoch yn ffyddlon,

G. G. R.

Mr. Gol.—Gwelais yn eich rhifyn olaf o'r Ymofynydd, rywun dan yr enw Nemo yn ceisio gwrthwynebu eich gohebydd J. J., yn eich rhifyn cyn hyny i gael Tonau gydag Emynau yn y casgliad newydd a fwriedir am dano. Dywed Nemo "fod mwy a chadarnach rhesymau yn erbyn y *mixture* yna nag sydd drosto." Carwn iddo ddyfod a'i resymau yn mlaen, yr wyf fi yn methu canfod yn ei ohebiaeth gymmaint ag un rheswm cymhwys i wrthwynebu yr hyn y mae J. J. yn ei ohebiaeth wedi awgrymu am dano ond yn unig na "fyddai y rhai nad ydynt yn arfer canu yn foddlawn talu 3s. 6c. am y llyfr." Yn awr, gofynaf i ba ddyben y gwneir casgliad o Emynau? Dychymygaf glywed pawb yn ateb yn un llais—yr amcan yw eu canu gan ein cynnulleidfaoedd ar amser gwasanaeth crefyddol, os felly, pa un rhataf i gantorion cynnulleidfaodd ein henwad yw talu 3s. 6c. am un llyfr a hwnw yn cynnwys y tonau a'r emynau, neu ynte dalu 2s. am yr emynau yn unig, a thalu 3s. 6c. wedi hyny am lyfr i gael tonau i'w canu arnynt, efallai 3s. 6c. arall hefyd cyn cael tonau o'r un mesurau a fydd yn y casgliad Emynau a wneir. Yn hytrach na hyna, dywedir wrthyf fi gan y rhai nad ydynt yn arfer canu ei bod yn fwy rhesymol iddynt *hwy* i dalu 3s. 6c. am y llyfr yn cynnwys tonau gydag emynau er mwyn i'r cantorion ei gael yn y modd mwyaf cyfleus iddynt at eu gwasanaeth, am na wna y tonau un drwg (iddynt *hwy*) i *ddarllen* yr emynau. Etto nid hyfryd genyf yw gweled Nemo yn ei *ffordd* yn defnyddio y gair *mixture* am lyfr tonau ac emynau. Yr wyf fi Mr. Gol., pan yn teimlo yn newynog ag eisieu maeth i'm corff, yn bur hoff o gael y bara a'r caws o fy mlaen ar yr un ford, a hyny yn y modd mwyaf cyfleus possibl i fwynhau o honynt, nid rhyw dda iawn yw y bara ei hunan, na'r caws ei hunan, y ddau gyda'u gilydd yn well. Credaf ei bod yr un mor rhesymol i ni i gael y tonau a'r emynau yn yr un llyfr, maent hwythau yn well gyda'u gilydd, a'u cael hefyd yn y modd mwyaf cyfleus i'r meddwl a'r deall i fwynhau oddiwrthynt, a sugno maeth o honynt. Nis gwn ychwaith pa achos iddo ddweyd nad "oes dim yn enwadol mewn ton" ni chredaf fod J. J. erioed wedi meddwl hyny, etto, dichon y gall J. J. a llawer ereill fod wedi teimlo rhywbeth mewn tonau na ŵyr Nemo ddim oddiwrtho. Gwir Mr. Gol., fod enw eich gohebydd Nemo yn ein gosod ar ddeall os bydd i'r casgliad newydd a fwriedir am dano i fod yn cynnwys tonau gydag emyn-

au, y bydd yn rhaid i'r llyfr i weithio ei ffordd allan heb iddo ef i wneuthur dim drosto, drwg genyf hyny, etto, credaf fod genym ddigon o ddynion yn ein henwad ag ynddynt ddigon o allu i ddwyn y llyfr allan hebddo, a hyny mewn modd doeth. Cyn terfynu, dywedaf fy mod yn gwybod am lawer gyda fy hunan a garai weled y casgliad newydd yn gwneyd ei ymddangosiad yn donau gydag emynau, ac yr wyf yn gobeithio nad yw ei lwyddiant i ymddibynu ar ffyddlondeb *un* neu *ychydig* o ddynion ystyfnig.

Yr eiddoch yn gywir,

NID NEMO.

SYR,—Yr ydym ni yn y lle hwn (Gellionen), fel mewn llawer o fanau ereill wedi bod yn siarad o barthed i'r llyfr newydd. Yr ydym o wahanol farnau mewn perthynas iddo, rhai am yr emynau yn unig, ac ereill am y *mixture*. Y rheswm sydd gan y rhai blaenaf yn erbyn y *mixture* yw yr aiff yn rhy gostfawr i ni allu fforddio ei gael; ond na fydded i ni wangaloni, mae y rhai sydd am y *mixture* yn llawer mwy lluosog. Fy nymuniad i yw ar iddo ddod allan yn gymmysg, a chyfranaf £1 tuag ato. L. T.

MR. GOL., — Drwg genyf weled cymmaint ag un yn erbyn cael y llyfr yma yn cynnwys tonau, am y credaf y byddai yn fuddiol ei gael felly. Yr wyf yn gryn adnabyddus a deg o gynnulleidfaoedd ein henwad, ac y mae nifer lluosog o bobl ieuainc yn perthyn i'r cynnulleidfaoedd hyn a fedrant ddarllen cerddoriaeth syml yn nodiant y solffa yr un mor rwydd ag y darllenant emyn. Yn awr gofynaf yn ostyngedig, a fyddai ddim yn fantais fawr i'r cantorion yma i gael y tonau a'r emynau yn yr un llyfr, ac yn fwy fyth i gael y don a'r emyn o flaen eu llygaid ar un olwg fel y gellir eu cael yn hawdd, credaf y byddai. Casgler a fwriedir o emynau, yna gosoder pob mesur yn rheolaidd ar ei ben ei hun, y mesur cyntaf yn mlaenaf yn y llyfr, &c., ac edrycher am yr emyn fyddo o'r nodwedd ac o'r ysbryd mwyaf gorfoleddus i'w osod yn mlaenaf yn y mesur, a'r emyn mwyaf tebyg iddo o ran yr un yspryd yn nesaf ato, felly nes gorphen y mesur hwnw. Gwneler yr un fath â phob mesur, nes gorphener yr oll o'r mesurau a fyddo yn gynnwysedig yn y casgliad. Yna edrycher am ryw gerddor neu gerddorion pwyllog a deallus, ac o chwaeth dda, i ddewis tônau fyddo o'r un nodwedd ac o'r un yspryd a'r emynau, ac ieuer hwy mor gymharus ag y byddo modd. Gosoder y dôn ar y rhan uchaf i'r ddalen, ac o leiaf gall yr hanner isaf (gyda phrint gweddol fân) gynnwys dwy emyn ar gyfer pob tôn. Yn mhellach, gwneler y llyfr mewn ffurf fel y galler tori ei ddail oll yn yr hanner, rhwng y tônau a'r emynau, yna gellir canu y dôn a fyner, ar unrhyw emyn a ddewisir, o'r un mesur, a 'chanfod hefyd y dôn a'r emyn ar un olwg. O frodyr unwn oll fel un gŵr i gael casgliad o'r fath i'n dwylaw, credaf y byddai yn wir dderbyniol ac yn hwylusdod mawr yn ein cynnulleidfaoedd, ac hefyd y byddai nid yn ychydig o welliant yn nghanu cynnulleidfaol ein henwad, ond yn godiad uchel iddo. I. AB DAFYDD.

Ysgrifena Gohebydd o gymmydogaeth Llanbedr, fel hyn:—Bydded i'r Llyfr Emynau newydd fod yn emynau, a dim tonau o gwbl. Tybiwyf mai lol i gyd ydyw meddwl rhoddi tônau ynddo, gan fod digon o Lyfrau Tônau gan yr holl gerddorion yn mhob man yn barod. Llyfr Emynau rhad sydd arnom eisiau,—sef cymmysg o Iolo ac ereill.

Gohebydd o Landyssul a ddywed:—"Yr wyf yn dymuno pob llwyddiant i'r gwaith o barotoi casgliad newydd o emynau. Credaf y derbynir ef gyda phob groesaw. Na chaniataer i bwnc y tônau ddyrysu yr amcan mewn golwg. Dylai y ddau bwnc gael eu cadw ar wahan yn *bresenol*."

[Ceisied ein gohebwyr gadw at eu pwnc, a chofio nad yw ymosodiadau personol yn cryfhau un achos. Dymchweler rhesymau Nemo os mynir, ond gadawer ef ei hun yn llonydd. Nid oes dim eisiau taflu ensyniadau cas allan mewn cyssylltiad â phwnc fel hwn. Na orfoder dwyn allan welleifau y—GOL.]

Marwgofion.

Awst 3, Hannah Jenkins, Pantyronen, Llanwnen, yn 36 oed. Claddwyd hi y Mercher canlynol yn Capelygroes. Pregethodd T. T. ar yr achlysur.

Awst 25, William Williams, Penyralltwen, yn 67 oed. Gadawodd weddw a thri o blant, dau fab a merch, i alaru ar ei ol. Bu yr ymadawedig yn aelod yn y Gellionen am flynyddau lawer. Gwasanaethodd y swydd o drysorydd i'r gynnulleidfa am y blynyddau diweddaf hyn, er boddlonrwydd cyffredinol i bawb perthynol i'r lle. Y Sadwrn canlynol, ymgynnullodd tyrfa luosog o gyfeillion a pherthynasau i'r ymadawedig i dalu iddo eu cymwynas olaf, a gosodwyd ei gorff i orphwys yn mynwent Gellionen hyd foreu'r codi—

"Pryd daw'r archangel i roi llef,
A'r rhai hunasant yn yr Iesu
Ddwg Duw hefyd gydag ef."

Ar yr achlysur, pregethodd y Parch. J. Evans, gweinidog y lle, oddiar Heb. ii. 15.

Medi 2, yn 56 oed, yn hollol ddirybudd, pan ar y ffordd i Landyssul, William Jones, Lodge, Alltyrodin. Treuliodd flynyddau lawer yn ngwasanaeth y diweddar John Ll. Davies, Ysw, Blaendyffryn, fel *butler*. Yr oedd yn ddyn deheuig iawn gyda phob gwaith yr ymaflai ynddo, yn mhell tuhwnt i'r cyffredin felly, ac ystyried mai trwy ei sylw a'i ddawn naturiol ei hun y cyrhaeddodd y fath fedrusrwydd. Dyn serchog a didderbynwyneb iawn ydoedd. Ni ddaliai wg ac ni feithrinai falais. Er mai i Eglwys Loegr y perthynai, rhoddai ei bresenoldeb yn fynych yn hen gapel y Llwyn. Ddydd ei angladd, gweinyddwyd gan Mr. D. Evans, B.A., Maesymeillion, yn cael ei gynnorthwyo gan weinidog y Llwyn, ac yn nghladdfa y Llwyn y rhoed ef i orphwys. Boed amgeledd y Nef i'w weddw dirion yn ei galar.

Medi 17, yn 54 oed, bu farw Thomas Davies, Llettyrhys, ger Ystrad, a chladdwyd ef y Llun canlynol yn Capelygroes. Dyn diniwed iawn a gwir dangnefeddus. Pregethwyd yn ei angladd gan T.T.

Medi 18, David Thomas, Esgaeronenfach, Llanybydder, sir Gaerfyrddin, yn 48 oed. Gadawodd y trengedig weddw a chwech o blant i alaru ar ei ol. Cymmydog da, diniwed, a thangnefeddus ydoedd ef. Yr oedd yn barod bob amser i wneuthur yr oll a allai o ddaioni i bawb, canys yr oedd yn well ganddo fod ar golled ei hun nâ dadleu â neb yn nghylch gwneyd yr hyn a ystyriai ef yn uniawn. Hefyd yr oedd yn briod tirion ac hawddgar. Dydd Llun canlynol, cludwyd ef gan luaws o gyfeillion a pherthynasau i fynwent Eglwys Llanbedr, Ceredigion, a rhoddwyd ef yn nhy ei hir gartref yn meddrod y teulu.

Medi 19, yn 52 oed, ar ol cystudd o wendid maith, Thomas Jones, gwniedydd, mab i'r diweddar Rees Jones, Pantraces, Llandyssul. Yr oedd yn ddyn o arferion diwyd iawn gyda'i alwedigaeth; yn gymmydog caredig a didramgwydd, yn hoff o astudio'r corff dynol ac o ddarllen llyfrau hen a diweddar. Yn byw mewn ardal hytrach bellenig, ar ystlys Penmoelymor, yr oedd yn syn pa mor hyspys ydoedd o hanesiaeth hen a diweddar, a pha mor gyfarwydd oedd yn mudiadau gwleidyddol yr amserau. Un oedd na throid yn wamal, ac a wyddai ffordd i ddal ei dir yn nydd prawf egwyddorion. Claddwyd ef wrth gapel Annibynol Carmel, ar ei ddymuniad ei hun, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Wm. Thomas. Gedy unig chwaer i alaru yn ei hamddifadrwydd.

Medi 29, yn 42 oed, ar ol cystudd maith yn cael ei ddwyn gydag amynedd a siriol-deb neillduol, Catherine Evans, Porth Hotel, Llandyssul. Carueiddiach calon ni churodd erioed mewn unrhyw fynwes. Un o hawddgaraf blant dynion ydoedd, nid o ran gwedd a golwg allanol yn unig, er ei bod felly yn brydweddol iawn, ond hefyd oblegyd ei chalon gynhes a charedig, a fedrai gydymdeimlo â phob gwrthddrych ac achos teilwng. Meddai ar dafod ffraeth ac arabedd naturiol tuhwnt i'r cyffredin, ond nid oedd gweniaeth ffol yn ei natur. Pan roddai elusen, nid oedd y naill law yn gwylied y llall, a phan y gweinai geryddi, yr oedd mêl caredigrwydd yn ei dymheru. Yn y cylch y troai hi ynddo, nid llawer erioed a adawodd lai o elynion a mwy o gyfeillion ar ol. Dichon i ddyeithriaid feddwl fod yr ormodiaeth ry arferol yn cael ei defnyddio, ond ei chyfeillion a'i chydnabod a wyddant y gellid dweyd rhagor nag y mae cofnod cyhoeddus o'r fath hyn o'r braidd yn ei ganiatau. Er iddi dderbyn y gofal a'r caredigrwydd tyn-

eraf oddiwrth frawd ac ereill o'i pherthynasau agosaf, a chydymdeimlad oddiwrth gylch helaeth o gyfeillion cywir, nis gallai dim dycio i atal, er iddynt yn ddiau i oedi, yr ymadawiad olaf. Y mae angau yn rhy drech i serch a chariad neb. Cafodd gynhebrwng annghyffredin o luosog i gladdfa y teulu yn mynwent Pantydefaid. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Mri. D. Evans, Maesymeillion; Wm. Thomas, Llandyssul; John Davies, Alltyplacca; a T. Thomas, Pantydefaid, yr olaf o ba rai a draddododd ei phregeth angladdol Hyd. 18fed yn ei gapel i gynnulleidfa luosog. Hedd-i'w llwch: *requiescat in pace.*

Hyd. 2, yn 61 oed, bu farw Jane Davies, Fronfelen, ger Cribin, a chladdwyd hi dydd Mawrth canlynol yn Capelygroes. Pregethwyd ar yr achlysur gan T. Thomas gweinidog y lle.

Banes.

Gwyl De.—Cadwodd eglwys Caeronen ei gwyl de flynyddol, Medi 24ain, 1874. Cyfranogodd amryw o aelodau y ddwy ysgol—Caeronen a'r Ram, o'r danteithion. Yn y Capel, am chwech yn yr hwyr, cafwyd Cyfarfod Llenyddol ardderchog (yr hwn a barhaodd dros bum' awr). Adroddwyd a chanwyd llu o ddarnau dyddorol, a gwerth eu trysori yn y cof. Rhanwyd hefyd lawer o wobrwyon i fuddugwyr mewn gwahanol gystadlaethau. Ymdreched y gwahanol bartion a fu yn canu ac yn adrodd darnau mor llawn o wersi moesol, i'r gwersi yma gael dylanwad daionus ar eu hymddygiadau. Y mae pobl weithgar y Ram yn golygu cael addoldy newydd, cyn hir, yn nghymmydogaeth Llanbedr.

Barddoniaeth.

MYFYRDOD AR LAN Y MOR.

'Rholl greadigaeth sydd mewn eglur iaith
Yn gysson yn emynu'th fawl ein Ior;
Pob bryn gyhoedda'th nerth a'th gariad
A'th fawredd a fynega'r eang for. [maith,

Un wedd pan mae dan edyn noson ddu,
A phan fo'r heulwen ynddo'n gwel'd ei llun,
Cyhoedda'th allu annghymarol Di,
Y Mawr, y Da, a'r Annherfynol Un.

Pan fyddo llewyrchiadau ser y nef,
Fel perlau'n britho ei chwyddedig fron,
Na dim yn cyffro ei dawelwch Ef,
Na duo gruddiau teg y lleuad lon.

Pan fyddo'r storm yn brysur wrth ei gwaith,
Yn casglu'r tonau fel taranawl gor,
I ddyrchu eu cydgan nerthol yn eu iaith,
I ddatgan faint yw mawredd maith y mor.

Bob pryd, O Arglwydd da, bob nos a dydd,
Mewn storm, tawelwch, ac mewn heulwen glir,
Mae'n dweyd, "Dy gariad di yr un y sydd
Drwy ddirif oesau tragwyddoldeb hir."

E.C.J.

EMYN.

Afonydd redant tua'r moroedd
Fflamiau esgynant fynu i'r ne',
Nid arosant yn eu gyrfa,
Brysiant i'w dechreuol le;
Felly'r enaid o Dduw aned
Sydd a'i dynfa yn ei ol,
I gael gwel'd ei wyneb hawddgar
A chael gorphwys yn ei gol.

Y mae gohebydd yn gofyn pwy yw awdwr y pennill uchod.

JENKIN HOWELL, AGERDD-ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

J. J., Quakers' Yard; J. R., Machynlleth; D. E., Rhymney; Miss J., Cellan; S. H., Cribin; J. E., Newcastle; D. P., St. Clears; T. T., Bwlch; D. M., Treorky; T. H., Troedyrhiw Cymer; D. D., Llanelly; P. R., Treorky; J. P., Llanelly; W. L., Pontypridd; E. J. Carmarthen; J. J. (Eiddil Cynon); D. T., Liverpool; T. Ll., Nottage; J. E., Gwernogle; J. J., Hirwaun Road; J. J., Ty'rdref.

D.S.—Yr oedd taliad yn ddyledus gyda'r rhifyn diweddaf. Dymunwn etto alw sylw ein derbynwyr fod yr *amleni melynion* bob amser yn arwyddo fod tâl yn ddyledus.

☞ Yr ydym yn taer erfyn ar ein derbynwyr i roddi can lleied o drafferth ag y gallont i'r dosparthwyr: mae rhai o honynt yn achwyn ac yn bygwth rhoi'r swydd i fyny.

Yn awr allan o'r Wasg, pris Dau Swllt, y pedwerydd Argraffiad o

AFALAU'R AWEN

Sef Caniadau Duwiol a Moesol; yn cynnwys Anerchiadau i Fyw yn Weddaidd, ac i Ymddwyn yn Gariadus at bawb o Ddynolryw; gan

EDWARD EVAN, O ABERDAR.

At ba rai yr ychwanegwyd Llyfr y Pregethwr, ar Fesur Cywydd; yn nghyd a Chofiant o'r Awdwr a'i Fab. I'w gael gan Mrs. Kingsbury, Fforchaman, Cwmaman; Rees Evans, Penygraig, Llanfabon; Edward Williams, Prince of Wales, Cap Coch; a chan yr Argraffwyr, Jones a'i Mab, Swyddfa'r *Aberdare Times*, Aberdar.

AT EIN DARLLENWYR.

Telerau.—Un copi, 8c., gyda'r post 8½.; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., Oxford Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1874. [RHIF 22.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Athrawiaeth y Cymmod	217
Diwedd Blwyddyn	224
Iawn-ymddwyn yn Nhy Dduw	227
Yr Aelod Didwyll mewn Cymdeithas *(Parhad)*	229
Cyfrifoldeb yr Ieuainc	231
Yn yr Awyr Agored	234
Spurgeon ar Ysmocio	234
Gohebiaethau	235
Priodas	237
Marwgofion	237
Congl yr Holiedydd	238
Darnau Byrion	239
Barddoniaeth	239

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.